



Annwyl Cwsmer

**Swyddfa Bost® Glanyfferi
Glanyfferi SA17 5RN**

Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynllun i symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i Ganolfan Gymuned Calon y Fferi, Heol Caerfyrddin, Glanyfferi, SA17 5TE, lle caiff ei rhedeg fel un o ganghennau lleol ffasiwn newydd Swyddfa'r Post.

Cawsom 46 o ymatebion unigol gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, gyda chwsmeriaid yn croesawu'r oriau agor estynedig a fyddai ar gael yn y lleoliad arfaethedig.

Rwyf wedi gwneud adolygiad terfynol o'm cynllun gwreiddiol ac o'r ymateb a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roeddwn yn falch o ganfod y gefnogaeth ac rydym wrth ein bodd fod cangen Glanyfferi yn rhan o'r cynlluniau moderneiddio ar gyfer ein rhwydwaith, gan gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post a fydd yn ateb gofynion cwsmeriaid ac yn helpu i wneud y gangen yn gynaliadwy yn y dyfodol. Eisoedd mae gennym dros 3470 o ganghennau sy'n cynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y ffordd newydd hon, ac mae adborth y cwsmeriaid a'r gweithredwyr wedi bod yn galonogol iawn.

Bydd y gweithredydd yn gwneud newidiadau hefyd i wella hygyrchedd i gwsmeriaid a bydd drws llydan newydd yn cael ei osod wrth y fynedfa cyn i'r gangen Swyddfa'r Post newydd agor. I gwsmeriaid sy'n defnyddio'u cerbydau eu hunain, mae yna faes parcio yn benodol ar gyfer cwsmeriaid wrth y Ganolfan Gymuned, gan gynnwys dau le ar gyfer gyrwyr anabl. Felly, rwy'n fodlon y bydd mynediad a pharcio ar gyfer y gangen arfaethedig yn dal i fodloni gofynion cwsmeriaid yng Nglanyfferi ar ôl y symud. Hefyd, bydd y gweithredydd newydd yn ymgynghori a'r awdurdod lleol ynghylch gosod arwyddion wrth ymyl yr heol a ger yr adeilad er mwyn cyfeirio cwsmeriaid at y gangen newydd.

Y tu mewn, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r Swyddfa Bost leol ffasiwn-newydd weithredu ochr yn ochr â'r siop. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad. Bydd peth celfi, ffitiadau a nwyddau'n cael eu symud neu'n cael eu cymryd oddi yno i wneud yn siŵr fod digon o le i ddod i mewn i'r adeilad. Bydd y fynedfa, llwybrau a'r lle bydd cwsmeriaid yn aros eu tro yn cael eu cadw heb rwystrau a bydd digon o le i gwsmeriaid symud o gwmpas y siop a chyrchu gwasanaethau'r Swyddfa Bost heb anhawster.

Byddwn hefyd yn cydweithio'n glos â'r gweithredydd i wneud yn siŵr fod yna ddigon o breifatrwydd i gwsmeriaid Swyddfa'r Post. Er enghraifft, rydym yn trafod materion fel cynllun y ciw a gofyn i gwsmeriaid aros i ffwrdd o'r cownter wrth aros eu tro am wasanaeth a chyflwyno taleb sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol â'i hwyneb tuag i lawr. Mae ystafell cynllun-agored yn tueddu i wneud i bobl siarad yn dawelach am nad oes raid iddyn nhw godi eu lleisiau er mwyn cael eu clywed.

Er bod y fformat lleol yn ffordd fodern o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post, nid yw'n amharu ar y gwasanaeth proffesiynol rydym yn ceisio ei ddarparu yn ein holl ganghennau.

Mae safon yr hyfforddiant i'r staff yr un mor uchel ag yw yn ein holl ganghennau. Mae hyn yn cynnwys yr angen i barchu cyfrinachedd cwsmeriaid a glynu wrth ein camau diogelwch llym er mwyn diogelu staff a chwsmeriaid. Bydd unrhyw staff a fydd yn ymwneud â thrafodion Swyddfa'r Post wedi cael eu hyfforddi ynghylch sut i gydymffurfio mewn sawl maes, gan gynnwys Diogelu Data a Thrafod Post. Yn ogystal bydd yna ddigon o staff i ateb y galw.

Bydd y Swyddfa Bost leol newydd yn gweithredu o dil cynllun-agored wrth gownter y siop. Bydd amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post yn cael eu cynnig ochr yn ochr â thrafodion y siop. Mae'r newid yn golygu hefyd y bydd trigolion lleol yn elwa ar oriau agor llawer hirach, gan gynnwys prynhawniau Sadwrn, dydd Sul ac oriau agor estynedig drwy gydol yr wythnos. Felly, gall cwsmeriaid ddefnyddio ein gwasanaethau ar adegau a fydd yn fwy cyfleus iddyn nhw. Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i fy nghynllun gwreiddiol a'r adborth a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Rwy'n ffyddiog fod y gangen newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn diwallu anghenion y cwsmeriaid ac, ar yr un pryd, yn rhoi dyfodol cynaliadwy i'r gangen.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ar 31 Mai 2018, a bydd y gangen newydd yn agor yng Nghanolfan Gymuned Calon y Fferi, Heol Caerfyrddin am 13:00 ar 1 Mehefin 2018. Os bydd unrhyw newidiadau annisgwyl i'r amserlen, bydd posteri'n cael eu harddangos yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw wasanaeth Swyddfa'r Post arall sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Cydweli, 3 Heol yr Orsaf, Cydweli, SA17 4UH

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd o Ganolfan Ymgynghori Swyddfa'r Post yn postofficeviews.co.uk. Wrth fynd i mewn i'r wefan gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r llythyr hwn naill ai drwy nodi enw'r gangen, y cod post neu'r cod unigryw ar gyfer y gangen, sef 359642.

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, yn ôl yr hyn a gytunwyd â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr. Mae copi llawn o'r Cod Ymarfer ar gael trwy fynd i'n gwefan yn www.postofficeviews.co.uk, neu gallwch gael copi wrth gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir



Suzanne Richardson
Rheolwraig Rhwydwaith Rhanbarthol

Sut i gysylltu â ni:

-  postofficeviews.co.uk
-  comments@postoffice.co.uk
-  FREEPOST Your Comments

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â'r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Glanyfferi															
Cyfeiriad	Canolfan Gymuned Calon y Fferi Heol Caerfyrddin Glanyfferi SA17 5TE														
Oriau Agor	<table border="1"> <tr><td>Llun</td><td>09:00 – 19:00</td></tr> <tr><td>Mawrth</td><td>09:00 – 19:00</td></tr> <tr><td>Mercher</td><td>09:00 – 19:00</td></tr> <tr><td>Iau</td><td>09:00 – 19:00</td></tr> <tr><td>Gwener</td><td>09:00 – 19:00</td></tr> <tr><td>Sadwrn</td><td>09:00 – 19:00</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> </table>	Llun	09:00 – 19:00	Mawrth	09:00 – 19:00	Mercher	09:00 – 19:00	Iau	09:00 – 19:00	Gwener	09:00 – 19:00	Sadwrn	09:00 – 19:00	Sul	09:00 – 18:00
Llun	09:00 – 19:00														
Mawrth	09:00 – 19:00														
Mercher	09:00 – 19:00														
Iau	09:00 – 19:00														
Gwener	09:00 – 19:00														
Sadwrn	09:00 – 19:00														
Sul	09:00 – 18:00														
Pellter	400 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur.														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.														
Hygyrchedd a gwaith hygyrchedd	Mynediad a chyfleusterau Mae mynediad ar gael trwy ddefnyddio ramp neu risiau o'r palmant. Bydd gan yr adeilad newydd ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa. Y tu mewn, bydd yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn. Parcio Mae maes parcio ar ochr dde'r fynedfa i'r adeilad newydd, ac mae hwnnw'n cynnwys dau le penodol ar gyfer gyrwyr anabl.														
Y Siop	Siop Goffi/Canolfan Gymuned														
Dyddiad yr Adleoliad	13:00 ar 1 Mehefin 2018														

Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost® Glanyfferi	
Bydd eich Postfeistr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 yn falch eich helpu ag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion i chi am werth uchaf trafodion. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk	
	Y gangen newydd
Post	
Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth	✓
Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig)	✓
Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post	✓
Signed For	✓
Special Delivery	✓
Dychweliadau siopa o gartref	✓
Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr	✓
Parseli Express a chontract	✓
Post Lluoedd Prydain (BFPO)	✓
Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Signed For ac Airsure)	✓
Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg	✓
Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol	✓
Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol)	✓
Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol	✓
Local Collect	✓
Drop & Go	✓
Codi arian, adneuon a thaliadau	
Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post	✓
Bancio personol a busnes: codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw)	✓
Archebion Post	✓
Moneygram	✓
Rhoi newid	✓
Talu Biliau	
Talu biliau (cerdyn, â chod bar neu â llaw)	✓
Adlenwi allweddi	✓
Gyrru	
Treth y car	✓
Teithio	
Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw	✓
Arian Teithio ar gais	Ewros/Doleri
Atgyfeirio yswiriant teithio	✓
Yswiriant teithio ar gais	✕
Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau	✓
Terfynell Loteri Cenedlaethol	✓
Talu â siec	✓
Mae'r cynhyrchion sydd wedi'u nodi â ✕ ar gael yn Swyddfa Bost Cydweli , 3 Heol yr Orsaf, Cydweli, SA17 4UH	
Oriau agor: Llun–Gwen 08:30–17:30 Sad 08:30–12:00	